**CFA09 Cyngor Sir Fynwy**

Senedd Cymru | Welsh Parliament

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol | Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Cymraeg i bawb? | Cymraeg for all?**

Ymateb gan: Cyngor Sir Fynwy | Evidence from: Monmouthshire County Council

**1. Beth yw'r prif rwystrau sy'n atal defnydd ehangach o'r Gymraeg mewn ardaloedd â llai o siaradwyr Cymraeg, a beth allai helpu i newid hyn?**

Mewn ardaloedd gyda llai o siaradwyr Cymraeg, mae'n anodd i bobl ddod i gysylltied â'r iaith ac ymgolli ynddi, sy'n cyfrannu at ei defnydd cyfyngedig. Efallai na fydd rhai sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd ond yn cael y cyfle i'w defnyddio wrth ryngweithio â gwasanaethau cyhoeddus. Er bod gwasanaethau cyhoeddus, megis awdurdodau lleol, yn gwneud ymdrechion sylweddol i gyflogi siaradwyr Cymraeg, gall hyn fod yn anodd iawn oherwydd prinder siaradwyr Cymraeg yn yr ardal. Yn aml mae'n rhaid hysbysebu swyddi gwag sawl gwaith i ddod o hyd i siaradwyr Cymraeg, gan mai ychydig o ymgeiswyr sydd ar gyfer y swyddi hyn. O ganlyniad, hyd yn oed wrth ymgysylltu â gwasanaethau cyhoeddus, nid yw pobl bob amser yn cael gwarant y byddant yn gallu gwneud hynny yn Gymraeg.

Mae diffyg mynediad hawdd i addysg cyfrwng Cymraeg yn ffactor arall sy'n cyfrannu at ddiffyg defnydd o'r Gymraeg. Mewn rhai ardaloedd, mae opsiynau ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn gyfyngedig iawn, ac mae disgyblion yn wynebu amseroedd teithio hir i'w hysgol cyfrwng Cymraeg agosaf. Mae hyn yn arbennig o broblemus i ddisgyblion sy'n trosglwyddo o ysgol gynradd i ysgol uwchradd, lle mae rhieni yn wynebu'r dewis o ddanfon eu plentyn i ysgol cyfrwng Saesneg sydd yn agos i'r cartref yn hytrach nag i'w plant deithio pellter maith bob dydd i ysgol cyfrwng Cymraeg. Mae'r sefyllfa hon yn cael effaith negyddol ar nifer y plant sy'n gadael yr ysgol gyda sgiliau yn y Gymraeg ac yn mynd i'r gweithlu, gan barhau'r cylch.

**2. Pa fath o ofodau a chyfleoedd a allai annog mwy o ddefnydd o'r iaith, a chynyddu hyder o ran ei defnyddio, mewn ardaloedd lle mae defnydd o'r iaith o ddydd i ddydd yn gyfyngedig?**

Mae grwpiau cymunedol siaradwyr Cymraeg a chlybiau sgwrsio yn fuddiol iawn wrth annog defnydd ehangach o'r iaith, gan eu bod yn darparu mwy o gyswllt â'r Gymraeg i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr ac yn rhoi cyfle iddynt ddefnyddio'r iaith. Mae'r Mentrau Iaith hefyd yn chwarae rhan hanfodol wrth hyrwyddo a galluogi'r iaith, yn enwedig mewn ardaloedd gyda llai o siaradwyr Cymraeg. Mae eu gwaith, sy'n cynnwys ymgysylltu â'r ysgolion a threfnu digwyddiadau cymunedol, yn amhrisiadwy ac yn cynnig cefnogaeth sylweddol i awdurdodau lleol.

Yn ogystal, mae digwyddiadau diwylliannol fel yr Eisteddfod yn hanfodol wrth normaleiddio'r iaith a'i dangos fel rhan fyw ac egnïol o ddiwylliant Cymru. Mae'r Eisteddfod wedi gwella'n sylweddol y ddarpariaeth o ddigwyddiadau ar gyfer dysgwyr a phobl newydd i'r iaith trwy weithgareddau ar lwyfan Maes D ac argaeledd cyfieithu ar y pryd mewn digwyddiadau. Mae'r cynhwysiant hwn yn meithrin chwilfrydedd am yr iaith Gymraeg a'i diwylliant.

Mae cynlluniau o'r fath yn helpu pobl i sylweddoli bod yr iaith yn perthyn i bawb, hyd yn oed y rhai nad oeddent wedi teimlo cysylltiad â hi o'r blaen. Mae hyn yn cyfrannu at newid agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith Gymraeg, gan annog ei defnydd a'r gwerthfawrogiad ohoni.

**3. A allwch chi rannu enghreifftiau o fentrau neu weithgareddau llwyddiannus sydd wedi annog defnydd o'r Gymraeg mewn ardaloedd lle mae defnydd o'r iaith yn gyfyngedig?**

Mae partneriaeth Cymraeg i Bawb wedi cael effaith gadarnhaol sylweddol ar hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn ne-ddwyrain Cymru. Mae'r bartneriaeth hon wedi hwyluso ymdrechion cryf ar y cyd rhwng yr holl randdeiliaid. Gyda chefnogaeth wych gan y pencampwr Llio Elgar, mae'r prosiect yn sicrhau dull unedig a negeseuon cadarnhaol cyson ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg. Fel y soniwyd yn flaenorol, mae addysg cyfrwng Cymraeg yn hanfodol i sicrhau defnydd ehangach o'r iaith ac i sicrhau gwasanaethau Cymraeg yn y dyfodol.

Mae Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru yn gynllun clir ac uchelgeisiol ar gyfer llwybr yr iaith, mae'r strategaeth yn meithrin ymdrechion cadarn ymhlith cyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill i helpu cyflawni'r nod hwn. Mae hyn yn arbennig o fuddiol mewn ardaloedd gyda llai o siaradwyr Cymraeg, gan ei fod yn annog arweinwyr i ddeall pwysigrwydd cenedlaethol hyrwyddo ac amddiffyn yr iaith.

Mae Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSGA) Awdurdodau Lleol yn hanfodol i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg ledled y sir, ac maent yn arbennig o bwysig mewn ardaloedd sydd â llai o siaradwyr Cymraeg. Mae'r strategaethau hyn yn rhoi targedau clir gynghorau ymgyrraedd atynt ar gyfer darparu addysg cyfrwng Cymraeg o fewn eu siroedd ac yn amlinellu sut y bydd y nodau hyn yn cael eu cyflawni.

Mae cynlluniau mewnol awdurdodau lleol ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gweithlu hefyd yn hanfodol i gynyddu cyfleoedd i'r Gymraeg gael ei defnyddio yn yr ardaloedd hyn. Mewn cymunedau gyda llai o siaradwyr Cymraeg, gall recriwtio siaradwyr Cymraeg ar gyfer swyddi fod yn heriol. I fynd i'r afael â hyn, mae cynghorau yn rhoi mwy o ymdrechion i gynyddu lefelau sgiliau o fewn eu gweithlu presennol trwy ddarparu cyfleoedd i ddysgu'r iaith yn ystod oriau gwaith. Yn ogystal, mae cynnig cefnogaeth i staff drwy roi gwybodaeth yn rheolaidd ar sut y gallant integreiddio'r iaith Gymraeg i'w gwaith, waeth beth yw eu sgiliau yn y Gymraeg, yn meithrin awyrgylch cadarnhaol tuag at yr iaith o fewn y gweithlu. Mae'r dull hwn yn galluogi cynghorau i wella'r gwasanaethau Cymraeg y maent yn eu darparu ac felly'n darparu mwy o gyfleoedd i'r iaith gael ei defnyddio o fewn ein cymuned.

**4. Sut y gallai technoleg ac offer digidol helpu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig ymhlith y rhai sy'n defnyddio'r iaith yn anaml neu sydd â diffyg hyder?**

Mae prosiect Arfor, a weithredwyd yn y brodydd Cymraeg, wedi canolbwyntio ar gryfhau hunaniaeth cymunedau gyda dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg trwy gefnogi defnydd ac amlygrwydd yr iaith. Byddai'n fuddiol iawn dysgu o'r gwersi o'r prosiect hwn i sefydlu cynllun tebyg mewn ardaloedd gyda llai o siaradwyr Cymraeg. Er enghraifft, gallai cydweithio â busnesau i'w helpu i sylweddoli'r potensial o integreiddio'r iaith Gymraeg i'w gweithrediadau fod yn fuddiol. Bydd cynyddu amlygrwydd yr iaith mewn ardaloedd gyda llai o siaradwyr yn helpu i hybu ei defnydd ac yn annog mwy o bobl i ddysgu Cymraeg.

Un o'r rhwystrau sy'n wynebu awdurdodau lleol wrth hyrwyddo'r iaith yw diffyg cyllid. Byddai sefydlu cronfa neu grant penodol gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo'r Gymraeg mewn ardaloedd gyda llai o siaradwyr yn fuddiol iawn. Byddai'r gefnogaeth ariannol wedi'i thargedu at ardaloedd gyda llai o siaradwyr yn galluogi awdurdodau lleol i weithredu strategaethau a mentrau effeithiol i gynyddu defnydd ac amlygrwydd y Gymraeg, gan feithrin cymuned fwy cynhwysol a dwyieithog.

Roedd cynnal yr Eisteddfod Genedlaethol yn Sir Fynwy yn 2016 yn gyfle gwych i hyrwyddo'r Gymraeg a'i chyflwyno i rai nad oeddent wedi ymgysylltu â hi o'r blaen. Gallodd trigolion weld yr iaith yn cael ei defnyddio fel rhan fyw, egnïol o fywyd bob dydd, gan feithrin ymdeimlad o berchnogaeth a hunaniaeth ddiwylliannol lle nad oedd wedi bodoli o'r blaen. Yn ogystal, cafodd dysgwyr a siaradwyr o fewn y gymuned gyfle i ymgolli'n llwyr yn yr iaith, gan glywed a defnyddio'r Gymraeg ym mhob rhan o'r Maes. Roedd y cyfle unigryw hwn yn eu galluogi i brofi ymgolli yn y Gymraeg o fewn eu cymuned, heb yr angen i deithio i ardaloedd lle mae'r iaith yn cael ei siarad yn ehangach.

**5. Pa effaith, yn eich barn chi, y mae digwyddiadau diwylliannol fel Eisteddfodau cenedlaethol neu wyliau Cymraeg yn ei chael ar y defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â llai o siaradwyr Cymraeg?**

Mae digwyddiadau diwylliannol fel yr Eisteddfod yn cael effaith sylweddol ar y defnydd o'r Gymraeg mewn ardaloedd gyda llai o siaradwyr Cymraeg. Mae'r digwyddiadau hyn yn rhoi cyfle i ddangos yr iaith a'i threftadaeth ddiwylliannol i rai nad oeddent wedi ystyried ei phwysigrwydd o'r blaen. Maent yn dangos bod y Gymraeg yn iaith fyw ac yn ymestyn y tu hwnt i'w defnydd gweinyddol.

Mae'r Eisteddfod yn helpu i feithrin ymdeimlad o hunaniaeth ddiwylliannol i bawb, yn siaradwyr Cymraeg ai peidio, ac yn cyfrannu at y gred bod yr iaith yn perthyn i bawb. Mae cynnal yr Eisteddfod yn lleol yn annog ysgolion yn yr ardal i gymryd rhan ac i ymgysylltu, rhywbeth na fyddent yn ei wneud efallai pe bai'n rhaid iddynt deithio ymhellach.

Mae’r Eisteddfod yn cynnig cyfle unigryw i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i drochi’n llwyr yn yr iaith gan allant ei ddefnyddio ar draws y Maes. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan ei fod yn eu galluogi i brofi hyn o fewn eu cymuned eu hunain, gan atgyfnerthu eu hymdeimlad o berthyn.

Yn ogystal, mae'r Eisteddfod yn dangos yr ardal i siaradwyr Cymraeg nad ydynt efallai wedi ymweld ag o’r blaen, gan eu hannog i ddychwelyd hyd yn oed ar ôl i'r digwyddiad ddod i ben. Mae'r ymweld parhaus hwn yn golygu bod siaradwyr Cymraeg yn dod i'r ardal, yn defnyddio'r iaith, ac yn gwneud iddi gael ei chlywed yn amlach o fewn y gymuned.

Mae gwyliau ac Eisteddfodau hefyd yn darparu cyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned a chyfranogi. Maent yn creu ymdeimlad o berthyn a balchder ymhlith y rhai sy'n mynychu, gan eu hannog i ddefnyddio a gwerthfawrogi'r iaith mewn cyd-destun cymdeithasol a dathliadau.

**6. Sut y gellid addasu neu wella’r digwyddiadau hyn (boed yn rhai mawr neu fach o ran maint) i wasanaethu cymunedau â llai o siaradwyr Cymraeg yn well?**

Mae sicrhau rhaglenni cynhwysol mewn digwyddiadau yn hanfodol i ymgysylltu â dysgwyr Cymraeg a'r rhai nad ydynt yn siarad yr iaith. Gellir cyflawni hyn trwy gynnig gweithgareddau a sesiynau wedi'u cynllunio'n benodol ar eu cyfer, megis gweithdai iaith i ddechreuwyr, perfformiadau dwyieithog, a sesiynau rhyngweithiol sy'n annog cyfranogiad waeth beth yw lefel hyfedredd iaith.

Gall cynnwys ysgolion lleol, busnesau, a grwpiau cymunedol yn y broses gynllunio hefyd feithrin ymdeimlad o berchnogaeth dros y digwyddiadau ac ymgysylltiad o fewn y gymuned. Mae'r dull hwn o weithio ar y cyd yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd mwy o bobl yn cymryd rhan ac yn ymgysylltu â'r digwyddiadau hyn waeth beth yw eu lefel iaith.

Mae'n hanfodol bod digwyddiadau wedi'u cynllunio i fod yn groesawgar ac yn hygyrch i bawb. Mae hyn yn cynnwys darparu cyfathrebu dwyieithog clir, sicrhau hygyrchedd, a chreu awyrgylch cynhwysol lle mae pawb yn teimlo'n gyfforddus ac yn werthfawr.

**7. A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech dynnu sylw’r Pwyllgor atynt mewn perthynas â dull Llywodraeth Cymru o gefnogi’r Gymraeg mewn ardaloedd â llai o siaradwyr Cymraeg?**